



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

**ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIADAU ARIANNOL
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2020**

Rhif yr elusen: 505262

www.llyfrau.cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

Amcanion a Gweithgareddau'r Elusen	2–4
Crynodeb o Waith y Flwyddyn	4–5
Targedau a Chyflawniad	6–7
Adolygiad Ariannol a Chynlluniau'r Dyfodol	8–9
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr	10
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol	11–13
Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol	14
Mantolen	15
Datganiad o'r Llif Arian	16
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol	17–29

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2020

Cyflwynna'r ymddiriedolwyr eu hadroddiad ynghyd â'r cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2020.

Prif Weithgareddau'r Elusen

- Hybu diddordeb mewn llyfrau Cymraeg a llyfrau Saesneg o Gymru ynghyd â deunydd cyffelyb arall;
- Hybu'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru a chydgysylltu buddiannau awduron, cyhoeddwr, llyfrwerthwyr a llyfrgelloedd;
- Cynorthwyo a chefnogi awduron trwy ddarparu gwasanaethau a thrwy ddyfarnu grantiau/comisiynau a sianelir trwy gyhoeddwr;
- Dosbarthu grantiau i gynorthwyo cyhoeddi deunydd o ansawdd uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan sicrhau bod y cynnyrch ar gael yn eang.

Datganiad Budd y Cyhoedd

Mae aelodau'r Pwyllgor Rheoli wedi ystyried eu dyletswydd yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Elusennau 2011 ynglŷn â Budd y Cyhoedd. Maent yn fodlon bod gweithgareddau'r elusen yn ystod y flwyddyn, fel y'u disgrifir yn yr adroddiad hwn, yn unol â'r meini prawf hynny. Amcan craidd y Cyngor Llyfrau yw darparu budd i ddarllenwyr Cymru – yn y ddwy iaith.

Manylion Gweinyddol

Enw'r elusen	Cyngor Llyfrau Cymru
Rhif Elusen Gofrestredig	505262
Cyfeiriad Cofrestredig	Castell Brychan Aberystwyth Ceredigion SY23 2JB
Archwilwyr	Llŷr James Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig 25 Stryd y Bont Caerfyrddin SA31 3JS
Bancwyr	HSBC plc Sgwâr Harford Llanbedr Pont Steffan Ceredigion SA48 7DU
Prif Weithredwr	Helgard Krause
Brocer Buddsoddiadau	Blackrock 12 Throgmorton Avenue London EC2N 2DL

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2020

Ymddiriedolwyr

Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yw ymddiriedolwyr Cyngor Llyfrau Cymru. Bydd aelod sydd yn gynrychiolydd neu sydd wedi'i gyfethol yn dal y swydd am dair blynedd o ddechrau'r Cyfarfod Cyffredinol nesaf ar ôl ei benodi neu ei gyfethol, ond os bydd aelod yn ymadael â'i swydd am unrhyw reswm cyn diwedd ei dymor, bydd gan y Cyngor yr hawl, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Gwaith neu'r corff y mae'r aelod yn ei gynrychioli, fel y bo'n berthnasol, i benodi rhywun yn ei le i ddal y swydd hyd ddiwedd y tymor penodedig. Yr ymddiriedolwyr ar gyfer 2019/20 yw:

Prif Swyddogion

Yr Athro M. Wynn Thomas
Mrs Rona Aldrich
Yr Athro Jane Aaron
Mr Chris Hywel Macey
Mr Gwydion Hughes
Mr Alun P. Thomas

Cadeirydd
Is-gadeirydd
Ysgrifennydd Mygedol
Trysorydd
Cwnsler Mygedol
Cyfreithiwr Mygedol

Awdurdodau Lleol

Y Cynghorydd Paul Rowlinson
Y Cynghorydd Ian B. Roberts
Y Cynghorydd Edwin Roderick
Y Cynghorydd Gordon C. Kemp
Y Cynghorydd Jason Hughes
Y Cynghorydd Geraint E. Hopkins
Y Cynghorydd Ernie C. Galsworthy

Gwynedd
Sir y Fflint
Powys
Bro Morgannwg
Casnewydd
Rhondda Cynon Taf
Merthyr Tudful

Cynrychiolwyr Eraill

Mr Richard Bellinger
Mr Gareth Griffiths
Mr Meilyr Rowlands / Mr Dyfrig Ellis
—
Dr D. Mark Smith
Mr Pedr ap Llwyd / Ms Manon Foster Evans
Dr Amy Staniforth
Mr Ion Thomas / Ms Bethan Gwanas
Ms Marian Delyth
Mr Dafydd John Pritchard
Mr Robat Arwyn
Mrs Lorna Herbert Egan
Yr Athro Daniel G. Williams
Dr Cathryn Charnell-White
Mr Jonathan Adams

Llyfrgellwyr Sir Cymru
Llyfrgellwyr Sir Cymru
Estyn
Cyngor Celfyddydau Cymru
CBAC
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
CILIP Cymru Wales
Cyfeillion y Cyngor Llyfrau
Cyfeillion y Cyngor Llyfrau
Llenyddiaeth Cymru
Panelau'r Cyngor
Panelau'r Cyngor
Panelau'r Cyngor
Aelod Cyfetholedig
Aelod Cyfetholedig

Cyfansoddiad

Cyfansoddiad ysgrifenedig yw offeryn llywodraethu Cyngor Llyfrau Cymru. Sefydliad anghorfforedig annibynnol a sefydlwyd at ddibenion elusennol yn unig yw'r Cyngor Llyfrau. Cafodd y Cyfansoddiad ei ddiwygio ar 12 Gorffennaf 2019.

Y Cyngor a'i bwyllgorau

Rheolir y Cyngor Llyfrau gan Gyngor a Phwyllgor Gwaith a benodir yn unol â'i Gyfansoddiad ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol Cymru, a chroestoriad o sefydliadau diwylliannol Cymru. Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yw ymddiriedolwyr yr elusen. Un o is-bwyllgorau'r Pwyllgor Gwaith yw'r Panel Enwebiadau sy'n penodi aelodau i'r panel arbenigol sy'n adrodd i'r Pwyllgor Gwaith. Swyddogaeth y Panel Enwebiadau yw sicrhau bod y drefn o benodi aelodau i'r panelau, trwy hysbysebu agored, yn deg a thryloyw, yn unol â threfn arfer gorau.

Crynodeb o waith y flwyddyn

Mae'n amhosibl osgoi crybwyll y ffaith ein bod, wrth i ni gau ein cyfrifon ac edrych yn ôl ar y flwyddyn ariannol a aeth heibio, yn ein cael ein hunain mewn sefyllfa gwbl ddigynsail, sef y Pandemig COVID-19. Yn ddiamau, daw â llu o heriau newydd yn ei sgil, gan wneud yr hyn a gyflawnwyd gennym yn 2019/20 yn fwy pwysig fyth. Rhoddwyd arwyddocâd newydd i'r buddsoddiad cyfalaf sylweddol a wnaethom yn ein hisadeiledd TG o ran ei fod, yng nghanol mis Mawrth, wedi ein galluogi i symud bron y cyfan o staff Castell Brychan i drefniant gweithio o gartref, a hynny o fewn ychydig ddyddiau'n unig, ac i ddarparu bron pob un o'r gwasanaethau heb unrhyw doriad o gwbl. Caewyd y Ganolfan Ddosbarthu dros bythefnos olaf mis Mawrth fel bod modd gwneud cynlluniau ac asesiadau risg manwl, i sicrhau y gellid ailddechrau gwasanaethau i'r diwydiant llyfrau mewn modd diogel a chydlynus wrth ailagor yr adeilad.

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, cafodd ein sefydliad ei ailfrandio gyda logo newydd, a newidiwyd yr enw Saesneg i Books Council of Wales – cam a fydd yn ein galluogi i gyfathrebu'n fwy effeithiol ag ystod ehangach o randdeiliaid, a hyrwyddo ein cefnogaeth i ddwy iaith genedlaethol Cymru.

Bu 2019/20 yn flwyddyn heriol i lyfrwerthwyr annibynnol, wrth iddynt barhau i deimlo effaith llai o wario ar ran y cwsmeriaid a mwy o symudiad tuag at y manwerthwyr mawr ar-lein. Roedd cyfnod y Nadolig yn siomedig, a'r ffaith fod etholiad cyffredinol wedi'i gynnal ym mis Rhagfyr hefyd wedi dylanwadu ar y sefyllfa; dyna pam, felly, fod penderfyniad Llywodraeth Cymru i brynu adnoddau drwy'r llyfrwerthwyr annibynnol yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ariannol wedi cael effaith sylweddol ar y llyfrwerthwyr hyn, y cyhoeddwyd a'r Ganolfan Ddosbarthu, gan arwain at gynnydd o 3.76% ar drosiant y flwyddyn flaenorol. Ynghyd ag arbedion effeithlonrwydd yn sgil buddsoddiadau mewn TG, arweiniodd rheolaeth lem bellach ar gostau at elw bychan i'r Ganolfan Ddosbarthu.

Mae'n destun llawenydd a balchder i ni fod Cymru Greadigol, ar ddiwedd mis Ionawr, wedi cyhoeddi bod y diwydiant cyhoeddi'n cael ei ystyried yn sector sy'n cael blaenoriaeth, oherwydd bod *"diwydiant cyhoeddi iach yn rhan hanfodol o hunaniaeth ddiwylliannol Cymru; trwy ein cefnogaeth i Gyngor Llyfrau Cymru, byddwn yn parhau i gefnogi gwasanaethau hanfodol i'r diwydiant cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg fel ei gilydd"*. Bydd y cydweithrediad agosach fyth sydd gennym â Llywodraeth Cymru yn caniatáu i ni ymgysylltu ar lefel ddyfnach, ac ar lefel draws-sector – er enghraifft, mae hyn eisoes wedi arwain at gynlluniau newydd, addawol gydag S4C a BBC Cymru. Bydd hefyd yn ein galluogi i gymryd arweiniad ar y cynllunio strategol pellach yng nghyd-destun ffeiriau llyfrau rhyngwladol, gan adeiladu ar lwyddiant Cymru yn Ffair Lyfrau Llundain yn ogystal â'r ddirprwyaeth ddiwylliannol i Ffair Lyfrau Frankfurt ym mis Hydref 2019.

Er mwyn galluogi rhwydweithio a hyfforddiant yn y sector, trefnodd y Cyngor gynhadledd yn Llanelli ar gyfer cyhoeddwy, mewn cydweithrediad â Busnes Cymru, a digwyddiad undydd yn Aberystwyth gyda'r Booksellers Association i gefnogi llyfrwerthwyr yng Nghymru. Croesawyd y ddau ddigwyddiad yn gynnes gan y busnesau fu'n cymryd rhan, a'r gobaith yw eu sefydlu fel digwyddiadau rheolaidd.

Cafwyd dechrau arbennig o dda i'n gweithgareddau hyrwyddo darllen gyda lansiad llwyddiannus y cynllun Stori Sydyn/Quick Reads; pleser o'r mwyaf oedd croesawu'r Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, fel y prif siaradwr yn yr Eglwys Norwyaidd ym Mae Caerdydd, ac aeth y dathliadau yn eu blaenau gyda digwyddiad gorlawn i gyhoeddi enw enillydd Gwobr Saesneg Tir na n-Og. Drwy ein gweithgareddau eraill i hybu Darllen er Pleser, llwyddwyd i gyrraedd cyfanswm o tua 8,000 o blant. Wrth gefnogi'r rhaglenni hyn, yn ogystal â'n gwaith arall, gwnaethpwyd buddsoddiadau newydd yn ein capasiti cysylltiadau cyhoeddus a chyfathrebu, a gwelwyd cynnydd sylweddol yn ein gweithgareddau a'n cyrhaeddiad ar y cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig felly gyda'r hashnodau #carudarllen a #lovereadng.

Yng nghanol mis Mai, pleser oedd croesawu Eluned Morgan, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, i'n Canolfan Ddosbarthu fel y gallai weld drosti ei hun y gwasanaethau allweddol rydym yn eu darparu nid yn unig i'r sector llyfrau, ond hefyd i lyfrgelloedd, ysgolion a lleoliadau treftadaeth a thwristiaeth. Yn ystod yr haf, anrhyddedwyd Prif Swyddog Gweithredol y Cyngor â Chymrodoriaeth Cymdeithas Ddysgedig Cymru am ei chyfraniad i'r Celfyddydau, a derbyniodd aelodaeth er anrhyddedd o Gymdeithas Frenhinol y Penseiri yng Nghymru am ei chyfraniad i gyhoeddi yn y maes pensaernïol yng Nghymru.

Parhaodd ein cydweithrediad â'r Reading Agency i ddarparu'r ail gam yn y cynllun i gyfieithu rhestr o lyfrau Darllen yn Well ar iechyd meddwl oedolion i'r Gymraeg, gan sicrhau bod dewis eang o lyfrau hunangymorth ar gael yn y Gymraeg am y tro cyntaf erioed.

I ddatblygu ein llwyddiant yn cyflawni argymhellion adroddiad Dr Siwan Rosser, *Arolwg Llyfrau Plant a Phobl Ifanc* (2017), aethom ati – mewn cydweithrediad â Llenyddiaeth Cymru – i ariannu gweithdy wythnos o hyd yng Nghanolfan Tŷ Newydd i ddatblygu llyfrau darluniadol i blant; yn ogystal, rydym yn cydariannu cwrs PhD KESS dros 3 blynedd gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ar ryngwladoli cyhoeddi i blant yng Nghymru.

Mae ein cydweithio â Llenyddiaeth Cymru yn parhau:

- Mae aelodau o Uwch Dîm Llenyddiaeth Cymru yn eistedd ar baneli grantiau'r Cyngor Llyfrau, a chynrychiolwyr y Cyngor Llyfrau yn eistedd ar y panel Bwrsariaethau Awduron;
- Mae'r Cyngor Llyfrau yn bartner gweithredol mewn cais am grant Arbenigedd SMART y bydd Llenyddiaeth Cymru yn ei gyflwyno yn yr hydref. Nod y prosiect arfaethedig yw cynyddu'r ystod o awduron a llenyddiaethau yng Nghymru a gaiff eu cyhoeddi, eu stocio, eu hariannu gan grant ac y trefnir iddynt ymddangos mewn digwyddiadau, a hynny trwy system cipio data ar draws y sector;
- Ariannu cwrs Ysgrifennu ar gyfer Pobl Ifanc yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd Llenyddiaeth Cymru ym mis Chwefror 2020;
- Cydweithio ar drefniadau Ffair Lyfrau Llundain;
- Gweithio mewn partneriaeth ar wobwr Llyfr y Flwyddyn;
- Parhau i weithio mewn partneriaeth (gydag eraill) ar gynllun Bardd Plant Cymru;
- Mae'r Cyngor Llyfrau a Llenyddiaeth Cymru wedi gwneud cyfraniad ehangach i'r gymdeithas lenyddol, e.e. drwy lywio, cynghori ac ariannu, yn enwedig mewn cymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol;
- Mae'r ddau gorff yn cynnig cefnogaeth marchnata a hyrwyddo rheolaidd trwy wefannau a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol y sefydliadau.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2020

Cyflawniad a Pherfformiad

TARGEDAU ALLWEDDOL 2019/2020		
	2019/20 Targed	2019/20 Cyflawni
Nifer y teipysgrifau – yr Adran Olygyddol	170	170
Nifer y teitlau a gynorthwywyd gan yr Adran Ddylunio	110	107
Gwerthiant llyfrau drwy'r Ganolfan Ddosbarthu	£4.05m gros £2.7m net	£4,165,541 gros £2,777,027 net
Lefel dyledwyr y Ganolfan	Dim mwy na 2%	2.33%
Gwales: targedau ar gyfer gwerthiant ar-lein i siopau ac unigolion	£3,041,420	£2,819,326
Gwasanaeth i Ysgolion	Ymweliadau: 500 Gwerth archebion: £400,000	Ymweliadau: 505 Gwerth archebion: £183,784
Cynllun Ymestyn	Digwyddiadau: 350 Gwerthiant: £150,000	Digwyddiadau: 334 Gwerthiant: £156,032

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2020

TARGEDAU ALLWEDDOL 2019/20 – GRANTIAU CYHOEDDI		
	2019/20 Targed	2019/20 Cyflawni
Grantiau Cymraeg		
Nifer y teitlau a gyhoeddir	215	215
Cyfartaledd gwerthiant	1,000 ar ôl 18 mis	846
Cyfanswm y cylchgronau Cymraeg	15	15
Cyhoeddi prydlon yn unol â'r amserlen	95%	95.5%
Grantiau Saesneg		
Nifer y teitlau Grant Llenyddiaeth a gyhoeddir	75	81
Nifer y teitlau blaendal awdur a gyhoeddir	15 (i'w cyhoeddi) (+ 10 wedi'u comisiynu)	15 (i'w cyhoeddi) (+ 24 wedi'u comisiynu)
Grantiau Marchnata	20	14
Nifer y cylchgronau llenyddol	5	6
Cyfartaledd gwerthiant y cylchgronau llenyddol	Cyffredinol – 1,000 Aml-ffocws – 500 Ffocws unigol – 400	Cyffredinol – Print: 1,413 / Gwefan: 59,865 Aml-ffocws – Print: 512 / Gwefan: 11,408 Ffocws unigol – Print: 292 / Gwefan: 3,525
Cyhoeddi rheolaidd yn unol â'r amserlen	95%	95%

Adolygiad Ariannol

Derbyniwyd cyfanswm o £7.6m o incwm yn ystod y flwyddyn o'i gymharu â £7m yn 2018/19. Llwyddwyd i dderbyn grantiau ychwanegol, gan gynnwys £300,000 o Adran y Gymraeg mewn Addysg i brynu llyfrau i ysgolion, £150,000 o grant argyfwng i'r sector a £145,269 o grant cyfalaf ychwanegol.

Daeth COVID-19 â lleihad i werth y buddsoddiadau, a gafodd effaith ar werthusiad y cynllun pensiwn. O'r gwariant o £8.1m (o'i gymharu â £7m yn 2018/19), roedd £632,000 o hwn yn symudiad yng ngwerthusiad y cynllun pensiwn, ac yn bennaf cyfrifol am y diffyg net o £463,909 (o'i gymharu â diffyg net o £41,369 yn 2018/19).

Ar 31 Mawrth 2020, roedd yr asedau net (ac eithrio rhwymedigaethau pensiwn) yn £1.5m (2018/19: £1.3m). Mae'r cynnydd oherwydd amseru derbyn cyllid prosiectau a gafodd ei wario ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r diffyg yn y pensiwn yn cymylu perfformiad ariannol cadarnhaol, lle llwyddodd y Ganolfan Ddosbarthu i gynhyrchu elw er gwaethaf y cynnydd mewn costau, a lle bu arbedion mewn costau mewnol. Bydd rhaid sicrhau bod costau mewnol yn parhau'n isel, er mwyn sicrhau bod arian digonol ar gyfer y gweisg, yr awduron, y siopau a'r prosiectau hyrwyddo darllen.

Polisi Arian Wrth Gefn

Lluniwyd y Polisi Arian Wrth Gefn i sicrhau bod gan y Cyngor gyllid digonol i gwrdd ag unrhyw ofynion gwariant cyfalaf annisgwyl, a hefyd i ddelfio â'r elfen o risg sydd ynghlwm â rhedeg Canolfan Ddosbarthu nad yw'n derbyn arian o'r pwrs cyhoeddus. Mae'r Cyngor yn cadw'r cronfeydd ariannol hyn mewn nifer o categorïau:

Cronfeydd Anghyfyngedig

- Cronfeydd Cyfalaf – £500,000 i gwrdd â chost hanesyddol yr adeiladau a gwariant cyfalaf annisgwyl. Byddwn yn cynnal archwiliad o'r adeiladau dros y flwyddyn nesaf, gan flaenoriaethu lle mae angen gwariant pellach o'r gronfa yma.
- Cronfeydd Refeniw
 - Pensiwn: Ar 31 Mawrth 2020, roedd diffyg o £3,641,000 (2018/19: £1,946,000). Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cytuno ar gyfraniadau gyda Chronfa Bensiwn Dyfed tan 31 Mawrth 2021, felly nid oes ganddynt reolaeth bellach ar faint y gronfa yma; fodd bynnag, mae'r diffyg yn debygol o barhau i gynyddu hyd nes y bydd cyfraniadau'n cynyddu.
 - Y Cyngor: Cronfa gadw heb fod yn fwy na 2% o'r grant craidd (a fyddai'n golygu £76,380 yn 2019/20). Mae'r gronfa yn £115,641 eleni, a hyn yn bennaf gan nad oedd modd gwario popeth oherwydd COVID-19 gyda digwyddiadau diwedd Mawrth wedi eu canslo.
 - Y Ganolfan Ddosbarthu: Targed o gronfa ddigonol i dalu gorbenion am 6 mis (ac eithrio disgownt) (£279,319 ar sail ffigurau 2019/20). Maint y gronfa eleni yw £233,306, felly mae'n eithaf agos at y targed.

Cronfeydd Penodol

Targed o £230,000 ar gyfer datblygiadau cyfrifiadurol na ellir eu hariannu trwy'r grant refeniw arferol. Gall hyn gynnwys prosiectau brys neu wariant hirdymor ar systemau newydd. Ni wnaethpwyd defnydd o'r gronfa yn 2019/20, ond mae angen yr arian fel cyllid cyfatebol ar gyfer cyllido system newydd.

Cronfeydd Cyfyngedig

Mae'r cronfeydd yma ar gyfer y defnydd a nodwyd yn nodyn 19 yn unig.

Prif noddwyr

Rydym yn hynod o ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am ddarparu cyfran helaeth o arian y Cyngor Llyfrau; heb y gefnogaeth yma, ni fyddai modd i'r Cyngor gyflawni ei waith.

Polisi buddsoddiadau

Yn unol â'r Cyfansoddiad, mae gan ymddiriedolwyr yr elusen y pŵer i fuddsoddi pan maent yn credu bod buddsoddiad yn briodol. Mae asedau'r elusen ar gael ac yn ddigonol i gwrdd â'r gofynion yn y dyfodol rhagweladwy.

Gwirfoddolwyr

Mae'r elusen yn ddiolchgar iawn am gyfraniad gwirfoddolwyr sydd yn gweithio'n ddi-dâl ar amrywiol banelau a chynlluniau'r Cyngor. Ni allwn roi gwerth ariannol ar yr holl waith yma, felly nid yw'n cael ei gynnwys yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol.

Trafodion partïon cysylltiol

Mae staff ac ymddiriedolwyr yn datgan unrhyw fuddiannau yn flynyddol ac fel y byddant yn codi. Nid oes unrhyw drafodion partïon cysylltiol yn ystod y flwyddyn sydd yn diwedd 31 Mawrth 2020 gan yr ymddiriedolwyr.

Rheoli Risg

Mae'r Cyngor wedi ystyried ac adolygu pob risg a allai effeithio ar yr elusen. Roedd y broses hon yn cwmpasu nid yn unig y sefyllfa ariannol, ond hefyd ystyriaethau strategol ac amgylchiadol. Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod systemau wedi'u sefydlu i wrthsefyll pob risg o'r math y tynnwyd sylw atynt fel rhan o'r broses hon.

Rhagdybiaeth Busnes Hyfyw

Mae gan yr ymddiriedolwyr ddisgwyliad rhesymol fod gan y Cyngor adnoddau digonol i ddal ati i weithredu hyd y gellir rhagweld. Am y rheswm hwnnw, mae'n parhau i baratoi Datganiad Ariannol ar y sail ei fod yn fusnes hyfyw.

Polisi Cyfle Cyfartal

Mae'r Cyngor Llyfrau yn gyflogwr cyfle cyfartal. Nid yw'n caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu gefndir economaidd-gymdeithasol, oedran, sefyllfa deuluol, statws priodasol, gweithwyr rhan-amser neu lawn-amser, crefydd, gwleidyddiaeth, tueddfryd rhywiol, neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall, ac mae'n ymroddedig i ystyried amrywiaeth mewn modd cadarnhaol. Defnyddir egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored, ac mae penodiadau'n ddibynnol ar deilyngdod.

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR:

Yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r cyfrifon ariannol yn unol â deddfwriaeth gymwys ac Ymarferion Cyfrifyddol Cyffredinol Derbyniol y Deyrnas Unedig.

Yn ôl y ddeddf, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol a fydd yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cwmni yn ystod y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- dewis polisiau cyfrifyddol addas a'u gweithredu'n gyson;
- dilyn y dulliau a'r egwyddorion yn yr adroddiad 'Datganiadau o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau' (SORP);
- dyfarnu ac amcangyfrif yn rhesymol ac yn ddoeth; datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw wryadau perthnasol a ddatgelir a gaiff eu hegluro yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r cyfrifon ar y sail y bydd y Cwmni yn parhau i weithredu os nad yw'n amhriodol i dybio hynny.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddol addas sy'n datgelu sefyllfa ariannol y Cwmni'n gymharol gywir ar unrhyw adeg, a hefyd yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau cyllidol yn unol â *Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008*. Mae ganddynt hefyd gyfrifoldeb i warchod asedau'r Cwmni ac yna i gymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll neu unrhyw afreoleidd-dra arall.

Yn ôl dealltwriaeth yr ymddiriedolwyr:


- nid oes unrhyw wybodaeth berthnasol (fel y'i diffinnir gan Adran 418 o Ddeddf Cwmnïau 2006) nad yw archwilwyr yr Elusen yn ymwybodol ohoni;
- mae'r ymddiriedolwyr wedi cymryd pob cam y dylent fod wedi'u cymryd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwiliadwy berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr yr Elusen yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am ofal a chywirdeb yr wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd wedi ei chynnwys ar safle we'r Elusen. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n rheoli, paratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodau eraill.

ARCHWILWYR

Yn y Cyfarfod Blynyddol, cynigir ailbenodi'r archwilwyr, Llŷr James.

Cymeradwywyd adroddiad yr ymddiriedolwyr, a'r cyfrifon blynyddol, ar 10 Gorffennaf 2020.



..... Yr Athro M. Wynn Thomas

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Llyfrau Cymru am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2020, sef y Cyfrif Incwm a Gwariant, y Fantolen, a Llif Arian yn ogystal â'r nodiadau perthnasol. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi eu paratoi yn unol â'r polisiau cyfrifo sydd yn y nodiadau a gofynion Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Yr Arferion Cyfrifo a Gydabyddir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig), yn cynnwys y Safon ar Adroddiadau Ariannol 102, 'Y Safon ar Adroddiadau Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon'.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- Yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Elusen ar 31 Mawrth 2020 ac o'i diffyg am y flwyddyn yn diweddu ar y dyddiad hwnnw.
- Wedi eu paratoi yn unol ag Arferion Cyfrifo a Gydabyddir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig, ac
- Wedi eu paratoi yn unol â Deddf Elusennau 2011.

Sail ein barn

Cynhaliwyd yr archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar archwilio (y Deyrnas Unedig) (SRhA-DU) a'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae'n cyfrifoldebau dan y safonau hynny wedi eu disgrifio dan Gyfrifoldebau'r Archwiliwr sy'n rhan o'r adroddiad hwn. Rydym yn annibynnol ar yr elusen yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, yn cynnwys Safon Foesegol y Cyngor ar Adroddiadau Ariannol ("FRC") ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hynny. Credwn fod y dystiolaeth a gawsom yn ddigonol ac yn briodol fel sail i'n barn.

Casgliadau yn ymwneud â hyfywdra

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd ar y materion canlynol y mae'r SRhA (DU) yn mynnu ein bod yn eu hadrodd wrthyh os:

- nad oedd yn briodol i'r ymddiriedolwyr baratoi'r cyfrifon ar sail eu rhagdybiaeth fod yr Elusen yn hyfyw.
- nad yw'r ymddiriedolwyr wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd sylweddol a allai greu amheuan am allu'r Elusen i barhau i baratoi cyfrifon ar sail hyfywdra am gyfnod nad yw'n llai na deuddeng mis o'r dyddiad y mae'r cyfrifon yn cael eu cymeradwyo.

Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr hyn sydd yn yr Adroddiad Blyneddol heblaw'r datganiadau ariannol eu hunain ac adroddiad yr archwiliwr ar y datganiadau hynny. Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn ymwneud â'r wybodaeth arall ac oni bai ein bod yn datgan fel arall, nid ydym yn datgan unrhyw farn arni.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR CYNGOR LLYFRAU CYMRU AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2020 (PARHAD)

Fel rhan o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth yn anghyson â'r datganiadau ariannol neu ag unrhyw fanylion sy'n deillio o'r gwaith archwilio.

Os ydym yn dod ar draws unrhyw anghysonderau sylweddol, mae angen i ni benderfynu a oes unrhyw beth yn gamarweiniol, naill ai yn y datganiadau ariannol neu yn yr wybodaeth arall.

Os ydym, ar sail ein gwaith, o'r farn bod unrhyw ddatganiad yn gamarweiniol, mae'n ofynnol i ni ddatgan hynny.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

Materion sydd angen adroddiad drwy eithriad

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion a ganlyn lle mae *Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008* yn ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- nad yw'r wybodaeth yn adroddiad yr ymddiriedolwyr yn gyson â'r datganiadau ariannol; neu
- nad oedd cofnodion cyfrifo digonol wedi eu cadw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion cyfrifo; neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n angenrheidiol i'r archwiliad.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Fel y disgrifir yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, hwy sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am y rheolaeth fewnol y mae'r ymddiriedolwyr yn ei hystyried yn ddigonol i baratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o anghysonderau yn deillio naill ai o dwyll neu o gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau i weithredu gan ddatgelu, os yw'n berthnasol, unrhyw faterion sy'n ymwneud â hyfywdra'r elusen oni bai bod yr ymddiriedolwyr yn bwriadu dod â'r gweithgareddau i ben neu nad oes dewis realistig ganddynt ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwiliwr am archwiliad o'r datganiadau ariannol

Rydym wedi ein penodi fel archwiliwr dan Ddeddf Elusennau 2011 (rhan 144) ac i adrodd yn unol â rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf a rheoliadau perthnasol a wnaed neu sy'n effeithiol o dan y Ddeddf honno. Ein nod yw cael sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw ddatganiadau sy'n gamarweiniol, yn deillio naill ai o dwyll neu o gamgymeriad, a pharatoi adroddiad sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu bod archwiliad sydd wedi ei gynnal yn unol â SRhA (DU) bob amser yn canfod camgymeriadau sylweddol lle maent yn bodoli. Gall camgymeriadau ddeillio naill ai o dwyll neu o gamgymeriad ac ystyrir camgymeriadau felly yn sylweddol os, yn unigol neu fel cyfanswm, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR CYNGOR LLYFRAU CYMRU AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2020 (PARHAD)

Mae disgrifiad manylach o'n cyfrifoldebau fel archwilwyr i'w gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol, sef www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwnnw yn rhan o'n hadroddiad fel archwiliwr.

.....*Bethan Vaughan*.....

DYDDIAD: *29 Mehefin 2020*

BETHAN VAUGHAN

Prif Archwiliwr Statudol

Ar gyfer ac ar ran

LLŶR JAMES Cyf.

Archwilwyr Statudol

25 Stryd y Bont

Caerfyrddin

SA31 3JS

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

DATGANIAD O SYMUDIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2020

	Nodyn	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Penodol £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2020 £	Cyfanswm 2019 £
Incwm drwy weithgaredd elusenol						
Grantiau Llywodraeth Cymru	3	1,100,900	175,269	3,190,573	4,466,742	3,863,831
Grantiau Eraill	3	—	—	146,500	146,500	195,000
Adrannau Eraill	4	172,136	—	10	172,146	198,277
Gweithgareddau masnachol eraill						
Canolfan Ddosbarthu	8	2,799,725	—	—	2,799,725	2,698,281
Buddsoddiadau	4	—	—	4,984	4,984	4,706
Cyfanswm yr adnoddau a dderbynnir		4,072,761	175,269	3,342,067	7,590,097	6,960,095
Adnoddau a wariwyd						
Gweithgaredd elusenol						
Grantiau wedi eu dosbarthu	5/6	—	—	2,548,100	2,548,100	2,548,100
Grant argyfwng a Grant Cynllun Ysgolion		—	—	308,383	308,383	—
Gwariant elusenol	7	1,873,786	105,883	430,614	2,410,283	1,767,277
Gweithgareddau masnachol eraill						
Canolfan Ddosbarthu	8	2,787,240	—	—	2,787,240	2,686,087
Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd	2	4,661,026	105,883	3,287,097	8,054,006	7,001,464
